

Polisi Iaith Gymraeg

Cynnwys

Cyflwyniad

Cefndir

Egwyddorion polisi iaith Gymraeg

Ymwelwyr i'n safleoedd

Rhifau ffôn cyswllt

Cyswllt Cleient a rheolwyr

Llythyrau, negeseuon e-byst a dogfennau

Cyfarfodydd

Ein wyneb cyhoeddus a chynhyrchion

Ein hunaniaeth gorfforaethol

Arwyddion

Ein gwefan

Cyhoeddiadau a deunydd gweledol

Gweithgareddau marchnata a chyhoedduswydd

Hysbysebion cyhoeddus a hysbysebu

Rheoli a chefnogi ein polisi

Polisi Iaith Gymraeg Wakemans Cyfyngedig

Cyflwyniad

Mae'r Polisi yma wedi ei baratoi fel bod Wakemans Cyfyngedig, ar sail wirfoddol, yn dilyn 'ymarferiad da' dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd Rheoli ym mis Ionawr 2010.

O hyn ymlaen, pan fyddwn yn cyflwyno polisiau newydd, arferion neu fentrau, byddwn yn sicrhau eu bod yn hwyluso ac yn hyrwyddo hyn rydym yn addo ei wneud yn y Polisi hwn. Yn yr un modd, byddwn yn gweithredu y Polisi hwn ymhob gweithgareddau busnes.

Cefndir Wakemans

Ymgynghorwyr Adeiladu yw Wakemans, sydd yn cynnig ystod eang o wasanaethau amlddisgyblaeth ac ymgynghoriaeth. Mae ein pencadlys wedi ei lleoli ym Birmingham ac mae gennym swyddfeydd rhanbarthol yng Nghaernarfon a Bryste.

Mae ein sgiliau traddodiadol yn canolbwyntio ar maintfesuro, rheoli prosiectau a syrfeio adeiladau.

Mae gennym hefyd ffocws arbenigol sy'n cynnwys trethi, TAW a grantiau, yswiriant ac ansolfedd, datrys anghydfod ac ymglyfreitha, rheoli cronfa, asiant cyflogwyr ac asiant tenantiaid, iechyd a diogelwch, cydlyn CDM a gwasanaethau cynaliadwyedd gan gynnwys BREEAM / EPC.

Gan fanteisio ar ein profiad eang gyda phrosiectau mawr, mae Cyfarwyddwyr y cwmni yn cynnig dull hyblyg, masnachol ac sydd wedi'i deilwra yn arbennig ar gyfer holl anghenion adeiladu a pheirianeg ein darpar cleientiaid.

Mae arddull Wakemans wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd mewn ymateb i anghenion Cleientiaid ac yn awr yn darparu ymarfer fodern gyda gwasanaethau wedi'u teilwra'n benodol i bob prosiect, sy'n golygu nad ydych yn talu am wasanaethau di-angen.

Cynnigir gwasanaeth proffesiynol gan ddefnyddio sgiliau craidd, maintfesuro, rheoli prosiect, syrfeio adeiladau a lechyd/diogelwch, gan gwmpasu yr holl weithgareddau a ddisgwylir gan bractis cynyddol fodern.

Mae Wakemans yn gyfarwydd iawn a'r farchnad eiddo y DU ac yn manteisio ar ein rhwydwaith o swyddfeydd i wasanaethu anghenion penodol ein cleientiaid. Mae Wakemans wedi buddsoddi'n helaeth mewn systemau ac offer technoleg gwybodaeth ac yn ystyried ei hunain ar flaen y gad gyda technoleg sydd ar gael i'r swyddfa fodern/diwydiant adeiladu.

Egwyddorion Polisi Iaith Gymraeg

Mae Wakemans wedi mabwysiadu egwyddor Deddf yr Iaith Gymraeg h.y. y dylai'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg gael eu trin ar sail cyfartal. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r camau rydym angen eu cymryd i weithredu'r egwyddor hon yn ein gwaith bod dydd yn ein swyddfa yng Nghaernarfon.

Wrth ddelio gyda cleientiaid a chwsmeriaid, rydym yn ymdrechu i:

- Fabwysiadu yr un nodau a safonau proffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Falluogi ein cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl y dewis wrth ddelio gyda ni, gan hysbysu Cleientiaid ymlaen llaw o'r dewis iaith wrth holi am wybodaeth a chyngor.
- Sicrhau fod ein Cleientiaid yn ymwybodol o'r angen i ystyried y defnydd o'r Gymraeg mewn busnes y mae'nt yn geisio sefydlu neu ddatblygu.

Mae'r geiriau yn cyfleu ein bod yn cymryd yr ymrwymiad hwn o ddifrif, ac yn mabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at ddewis iaith yn ein gwasanaethau, lle bynnag y bo modd. Mewn cysylltiad â chwsmeriaid, mae hyn yn golygu bod yn agored wrth gynnig dewis iaith, ac yn ceisio ein gorau i'w draddodi.

Bydd hyn yn golygu cyfuno y defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith bob dydd.

Ymwelwyr i'n Swyddfa yng Nghaernarfon

Mae croeso i gleientiaid sydd yn ymweld â'n safle yng Nghaernarfon i fynd i'r afael â'u ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd staff yn sicrhau fod ymwelwyr yn ymwybodol bod modd delio â'r sefydliad yn y ddwy iaith. Byddwn yn gofyn i bawb rydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gweithgareddau busnes dyddiol a fyddent yn dymuno delio â aelod o staff Cymraeg.

Mae ein holl staff sy'n gweithio yn ein swyddfa yng Nghaernarfon yn ddwyieithog.

Lle bynnag y bo'n bosibl, gallwn drefnu i ddeunydd printiedig y swyddfa gael ei arddangos yn ddwyieithog.

Os yw eraill eisiau arddangos eu deunydd, byddwn yn gofyn iddynt ei ddarparu'n ddwyieithog.

Cyswllt ffôn

Rydym yn croesawu galwadau ffôn gan gwsmeriaid yn y Gymraeg neu Saesneg.

Bydd galwadau switsfwrdd yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog ac ymdrin â hwy yn iaith dewisiol y galwr, naill ai gan y gweinyddwr swyddfa neu aelod arall o staff.

Os digwydd nad yw person sy'n siarad Cymraeg fod ar gael i gymryd yr alwad, yna gwneir trefniadau i siaradwr Cymraeg i ddychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo modd.

Byddwn yn annog gweddill ein staff i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriant ateb personol.

Cyswllt Cleient a Rheolwyr

Byddwn bob amser yn ceisio darparu cyswllt personol yn yr iaith sydd orau gan gleientiaid. Bydded hyn trwy aelod o staff neu gynghorydd busnes dan contract.

Byddwn yn gofyn ymlaen llaw os yw cleientiaid yn dymuno siarad Cymraeg neu Saesneg.

Bydd eu dewis yn cael ei gofnodi ar fanylion y Cleientiaid, a byddwn yn sicrhau fod y iaith o'u dewis yn cael ei siarad mewn cyswllt cychwynnol a dilynol.

Bydd gwybodaeth a anfonir i gleient cyn y cyfarfod cyntaf yn ddwyieithog, ac yn dilyn hynny, fe ddarperir yn unol â dewis y cleient.

Os bydd angen i eraill gymryd rhan [e.e. arbenigwr marchnata], byddwn yn ceisio darparu continwrm iaith, ond efallai na fydd bob amser yn bosibl. Bydd iaith dewisiol y cleient yn cael ei gyfleu yn ystod yr atgyfeiriad hwn fel mater o drefn.

Byddwn yn ystyried darparu cyfleusterau cyfieithu mewn trafodaethau grŵp.

Byddwn yn ceisio adlewyrchu dewis iaith mewn unrhyw sesiynau hyfforddiant neu ddigwyddiadau gymorth arall fydd yn cael ei drefnu ble mae cleientiaid yn cael eu dwyn at ei gilydd.

Wrth ddelio â'n cleientiaid, byddwn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i ystyried y defnydd o'r Gymraeg yn eu trafodion busnes.

Llythyrau, E-byst a Dogfennau

Rydym yn croesawu llythyrau a gohebiaeth ysgrifenedig arall megis negeseuon ffacs ac e-byst yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd gohebiaeth yn cael ei hateb yn yr iaith a ddefnyddir gan y cwsmer, yn unol â thargedau ymateb. Bydd pob llythyr (copi-caled) sydd yn cael ei gyrru allan yn cael ei lofnodi ym mha bynnag iaith sydd wedi cael ei ddefnyddio yn y llythyr.

Bydd pob gohebiaeth wreiddiol gan ein haelodau o staff, boed yn Saesneg neu yn y Gymraeg, yn cynnwys troednodyn dwyieithog yn dynodi y gall y sawl sydd yn derbyn y gohebiaeth ymateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis.

Bydd unrhyw atebion pellach i ymatebion a dderbyniwyd fod yn iaith yr ymatebion. Efallai y bydd amseroedd ymateb ar gyfer llythyrau a negeseuon e-bost y mae angen eu cyfieithu ar adegau fod yn fwy na'r rhai a anfonir mewn un iaith yn unig.

Bydd llythyrau safonol a llythyrau grŵp fel arfer yn cael eu hanfon allan yn ddwyieithog.

Os yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys (e.e. trwy ddefnydd marchnata, cyfarfodydd blaenorol neu sgysiau, galwadau ffôn ac e-byst) bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon allan yn iaith dewisiol y derbynnydd oni bai ei fod wedi ei gytuno fel arall.

Gall Cleientiaid roi ceisiadau neu gyflwyniadau yn yr iaith sydd orau ganddynt, a byddwn yn delio â hwy yn yr un graddfa amser.

Bydd bas data cwsmeriaid yn cynnwys colofn dewis iaith weithredol.

Bydd y wybodaeth yn cael ei fewnbynnu a'i diweddarau yn barhaus o bwyntiau cyswllt-cudd-wybodaeth.

Mae'r dull uchod yn berthnasol i bob math o ohebiaeth ysgrifenedig. Mae trefniadau cyfieithu yn eu lle i gynorthwyo staff.

Cyfarfodydd

Mae croeso i'r sawl sydd yn mynychu cyfarfodydd a gynhelir gennym ni gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd hyn yn cael ei wneud yn hysbys yn yr agenda ac ar ddechrau trafodion.

Bydd gohebiaeth sydd yn estyn gwahoddiad i gyfarfodydd yn ddwyieithog. Bydd aelodau o staff Cymraeg yn bresennol ar adegau o'r fath, i groesawu mynychwyr a delio ag unrhyw ymholiadau.

Ein harferiad fydd i ddarparu dogfennau a gwybodaeth arall yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ble y gallwn, byddwn yn defnyddio'r Gymraeg ein hunain, a byddwn yn annog eraill i wneud yr un peth pan fydd trefniadau yn cael eu gwneud a thrwy'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod.

Ein Hunaniaeth Corfforaethol

Bydd ein hunaniaeth gorfforaethol yn rhannol ddwyieithog. Bydd ein henw yn y Saesneg yn unig, ond bydd ein gwybodaeth safonol ar deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cyhoeddiadau a hysbysebion.

Arwyddion

[Naill ai] Bydd arwyddion parhaol a dros dro y tu mewn a'r tu allan ein hadeiladau yn ddwyieithog. Hyn yw'r practis presennol.

[Neu] Bydd arwyddion parhaol a dros dro y tu mewn a tu allan ein hadeiladau yn ddwyieithog. Nid yw hyn yn wir yn awr, ond bydd erbyn [dyddiad].

[Neu] Bydd arwyddion parhaol a dros dro byddwn yn ei godi neu osod ar ein safle yn ddwyieithog. Mae arwyddion eraill, mewn

ardaloedd cyffredin ac y tu allan i'n safle yn perthyn i berchennog yr eiddo ac mae'n t y tu hwnt i'n rheolaeth.

Ar ein arwyddion dwyieithog, bydd testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddent yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwyddion, gan gynnwys arwyddion electronig.

Ein Gwefan

Yn dilyn ail-ddylunio, bydd y dudalen ar y wê sy'n ymwneud â'n swyddfa yng Nghaernarfon yn datgan bod croeso i gwsmeriaid ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddelio gyda ni.

Cyhoeddiadau a Deunydd Gweledol

Ein harferiad fydd i gyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd a chleientiaid yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un dogfen. Bydd hyn yn cynnwys cylchlythyrau tenantiaid, canllawiau, ffurflenni, adroddiadau a holiaduron. Mae hyn yn arfer ar hyn o bryd a bydd yn barhaus.

Os bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn y ddwy iaith.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd fydd ar gael yn electronig, gan gynnwys ffurflenni rhyngweithiol a statig, a deunydd ar CD Rom neu ffurf arall.

Pan fyddwn yn dosbarthu ffurflenni ar ran sefydliadau eraill, er enghraifft Llywodraeth Cynulliad Cymru neu awdurdodau lleol, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn unol â'u polisi dwyieithog.

Gweithgareddau Marchnata a Chyhoedduswydd

Pan fyddwn yn trefnu neu mynychu digwyddiadau ac yn arddangos ein deunydd, byddwn yn arddangos unrhyw fersiynau Cymraeg o'n deunydd hefyd. Bydd unrhyw fyrddau arddangos neu destun arddangosfa yn ddwyieithog.

Pan fyddwn yn gosod hysbysebion mewn papurau newydd, cylchgronau neu gyhoeddiadau eraill, byddant yn ddwyieithog [byddant yn arddangos ein brand dwyieithog a gwybodaeth corfforaethol].

Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, byddwn yn sicrhau fod pob agwedd o gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog [bod ein holiadur a deunydd esboniadol yn ddwyieithog], a bod y sawl sy'n cwblhau'r holiadur yn cael gwybod y gallant ei gwblhau yn y ddwy iaith.

Hysbysebion Cyhoeddus a Hysbysebu

Pan fyddwn yn rhoi rhybudd swyddogol yn y wasg, ac ar ein safle, megis hysbysiad o gyfarfod cyhoeddus, bydd yn ddwyieithog.

Bydd ein hysbysebion recriwtio staff fel arfer yn Saesneg, ond bydd yn arddangos ein brand yn ddwyieithog ac ein neges troedyn gwasanaeth yn ddwyieithog.

Rheoli a Chefnogi ein Polisi

Polisi'r cwmni yw hwn sydd wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli. Byddwn yn cydlynu ac yn adolygu ei weithrediad fel rhan o'n gweinyddu busnes parhaus.

Mae ein Is-Gyfarwyddwr Mr Dylan Morris wedi cael y dasg o arwain a goruchwyllo'r cynnydd.

Byddwn yn darparu ein staff gyda annogaeth, arweiniad a hyfforddiant i'w weithredu, fel eu bod yn ymwybodol o beth i'w wneud ac yn hyderus wrth wneud hynny.

Mae trefniadau cyfieithu yn eu lle i gynorthwyo gyda chyflwyniad.

Byddwn yn monitro a sicrhau ansawdd ein gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'n trefniadau gofal cwsmer, gan gymhwyso'r meini prawf fel y byddem i agweddau eraill o'n gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys delio gyda phryderon cwsmeriaid.

Nid yw Wakemans fel arfer yn cyflogi is-gontractwyr, fodd bynnag, os y dylai wneud hyn, bydd unrhyw is-gontractwyr sy'n gweithio ar ein rhan angen gwerthuso ein polisi. Byddant yn cael eu briffio ar yr hyn rydym yn ei ddisgwyl, ac eu cyflwyniad yn cael ei fonitro.

Bydd unrhyw aelod o staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg ar gyfer ei ddefnyddio yn y busnes, yn cael eu cefnogi.

Bydd staff sydd wedi'i lleoli yn ein swyddfa yn Nghaernarfon, ble byddai sgiliau Cymraeg yn ddefnyddiol o ran cyflawni neu hyrwyddo y polisi hwn, yn cael eu hannog i ddysgu sgiliau iaith Cymraeg fel rhan o'u cynnydd.

Pe byddai swydd ble byddai sgiliau iaith Gymraeg yn ddefnyddiol o ran cyflawni neu hyrwyddo y polisi hwn yn dod yn wag neu yn cael eu creu, byddwn yn ceisio eu llenwi gyda staff dwyieithog gyda'r sgiliau priodol.

Fe feincnodwyd beth y gallem ei gyflawni wrth fabwysiadu y polisi hwn, a byddwn yn adolygu ein cydymffuriad a chynnydd o ran gweithredu yn flynyddol ac asesu a oes modd i ni ddatblygu ein gweithgarwch iaith Gymraeg ymhellach. Lle y gellir gwneud mwy, byddwn yn adolygu ein gweithgarwch iaith Gymraeg ymhellach. Lle y gellir gwneud mwy, byddwn yn adolygu geiriad y polisi a symud ymlaen.

Os ydych yn dymuno cysylltu â ni ynghlyn a chynnwys neu weithrediad ein Polisi, a fydddech cystal a chysylltu â'r person isod cyn gynted ac y bo modd:

**Dylan Morris, Is-Gyfarwyddwr
Wakemans Cyf**

12/14/16 Stryd y Bont,
Caernarfon
GWYNEDD
LL55 1AB

Rhif Ffôn: 01286 672581

E-bost: d.morris@wakemans.com

Noder: Mae'r Polisi Iaith Gymraeg yn ffurfio rhan o'r pecyn cefnogaeth y llinyn iaith Gymraeg y rhaglen 'Potentia', gweler y wybodaeth arweiniad a roddir isod:-

Templed Polisi Iaith Gymraeg

Sector Cymorth Busnes

Mae'r polisi hwn wedi cael ei llunio ar gyfer defnydd gan sefydliadau sy'n dymuno ffurfioli eu hagwedd tuag at y defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith, ac i adlewyrchu'r arferion da sy'n cael eu mabwysiadu fwyfwy mewn gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn benodol, mae'r polisi yn cael ei gynnig i gynorthwyo sefydliadau i gwrdd a disgwyliadau partneriaeth Cynulliad Cymru a disgwyliadau contract, a chael cefnogaeth yr Iaith Gymraeg.

Mae'r polisi yn cynnig dewislen o ddatganiadau ble mae modd dewis y geiriad sy'n gweddu orau i sefyllfa sefydliadau unigol mewn gwahanol rannau o Gymru. Nid yw'n ceisio cynnig pob amrywiad posibl; bydd angen i ddefnyddwyr addasu rhai o'r geiriad yn ôl eu sefyllfa go iawn.

Er nad oes rhwymedigaeth i dderbyn pob agwedd, mae'n anhebyg y budd dull minimalaidd yn cael ei gymeradwyo. Fe'ch cynghorir i ystyried pob agwedd, os nad oes modd gwneud hyn ar hyn o bryn, gellir ddefnyddio'r amserlen i gyflwyno'r ddarpariaeth yn raddol.

Mae 'Canllawiau Gwasanaeth Gofal Cwsmer Dwyieithog' hefyd ar gael i roi mwy o arweiniad ar gyfer rheolwyr a staff a chynghorwyr busnes ar gyfer gweithredu'r polisi yn llwyddiannus.